# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Beacons Park Short Stay**

**Aberhonddu**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

30/08/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Beacons Park Short Stay

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cydweithfa Cartrefi Cymru Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 3 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 11 Awst 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Gwasanaeth gofal seibiant arhosiad byr yw Beacons Park sy'n lletya arosiadau wedi'u trefnu ac arosiadau argyfwng. Caiff y bobl eu hannog i ymlacio ac i wneud eu hunain yn gyfforddus, yn ogystal ag ymarfer sgiliau byw'n annibynnol a gweithio tuag at y nodau y maent wedi eu gosod. Mae'r tîm o staff i gyd yn weithwyr cymorth sydd wedi gweithio yn y gwasanaeth am lawer o flynyddoedd ac maent yn brofiadol iawn. Caiff dogfennau gofal eu trosglwyddo i system rheoli gofal electronig, sydd wedi'i haddasu ar gyfer arosiadau byr. Mae'r cynlluniau a'r asesiadau risg yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a chânt eu hadolygu gyda'r unigolyn cyn ei arhosiad nesaf. Mae'r gweithwyr cymorth wedi'u hyfforddi'n dda a chânt eu cefnogi i fod yn hyderus ac yn gymwys yn eu rolau. Caiff y cyfleusterau eu gwirio a'u cynnal a'u cadw er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac yn cwblhau ymweliadau monitro fel rhan o brosesau sicrhau ansawdd parhaus.

Mae'r rheolwr yn siarad Cymraeg a chaiff dewis iaith y bobl ei chofnodi yn ystod eu hasesiad. Mae dogfennaeth Gymraeg ar gael ar gais.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i reoli eu dewisiadau o ddydd i ddydd wrth aros yn Beacons Park. Gwnaethom siarad â'r bobl oedd yn aros yno adeg ein hymweliad a gwnaethom eu gweld yn trafod beth i'w gael i swper neu beth i'w wneud yn ystod y dydd. Gwelsom ryngweithio cynnes a chyfeillgar, a oedd yn garedig ac yn anogol. Rhoddir canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn ystod pob ymweliad cychwynnol fel eu bod yn gwybod beth y gall y gwasanaeth ei gynnig a'r hyn na all ei gynnig. Mae'r gwasanaeth yn gofyn am adborth gan y bobl, eu cynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae gweithdrefn gwyno ar waith os bydd ei hangen.

Mae prosesau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel rhag niwed neu gamdriniaeth. Mae asesiadau risg ar waith i leihau niwed posibl i unigolion yn y gwasanaeth ac allan yn y gymuned. Cedwir proffiliau unigolion coll ar ffeil er mwyn cyfeirio atynt yn gyflym os bydd angen. Dywedodd y rheolwr ei fod yn hyderus i atgyfeirio unrhyw faterion diogelu posibl, bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu a bod polisi diogelu cyfredol ar waith i'r staff ei ddilyn os bydd angen mwy o arweiniad arnynt.

Mae amgylchedd y bobl yn cefnogi eu llesiant. Rhoddir ystyriaeth i gydnawsedd y bobl cyn iddynt drefnu eu harhosiad, a phennir lefelau staffio yn seiliedig ar anghenion unigol. Mae ardaloedd cymunedol lle gall y bobl dreulio amser gyda'i gilydd, sgwrsio a rhannu prydau bwyd. Mae'r cyfleusterau a'r cyfleustodau yn ddiogel ac yn addas at y diben.

## Gofal a Chymorth

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau aros yn Beacons Park: *“I like it here,” “it’s very good here, they get me doing things that will help me at home.”* Dywedodd gweithiwr cymorth yn ei adborth: *“I feel the individuals who stay with us are well supported, they are given choices and options in all aspects of their care. The staff team are very caring, well trained and want the person to get the best out of their stay.”*

Mae gan y bobl gynlluniau cymorth cyfredol, sy'n cynnwys gwybodaeth gywir a pherthnasol, er mwyn i weithwyr cymorth allu diwallu eu hanghenion yn effeithiol. Mae'r gwasanaeth bellach yn defnyddio system rheoli gofal electronig, sy'n galluogi pob aelod o'r staff i gael gafael ar bob cynllun gofal ac asesiad risg ar eu ffonau symudol, ac maent yn ei defnyddio hefyd i gofnodi gweithgareddau dyddiol, meddyginiaeth ac unrhyw ddigwyddiadau nodedig wrth iddynt ddigwydd yn ystod y dydd. Mae hyn yn gwella ansawdd y trosglwyddiadau, oherwydd gall y gweithwyr cymorth gyfeirio'n ôl yn hawdd at nodiadau'r diwrnod blaenorol. Mae hefyd yn lleihau'r risg o fethu meddyginiaeth neu apwyntiadau iechyd oherwydd caiff rhybuddion eu gosod er mwyn atgoffa'r gweithwyr cymorth, neu'r rheolwr, pan fo tasg angen ei gwneud neu'n hwyr. Nid oedd y broses adolygu'n glir adeg yr arolygiad diwethaf. Nawr, mae'r rheolwr yn adolygu cynlluniau'r bobl gyda nhw yn ystod eu harhosiad a bydd yn cysylltu â'r bobl rhwng arosiadau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beth wedi newid ers y tro diwethaf iddynt fod yn y gwasanaeth.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor iach â phosibl. Yn ystod eu harhosiad, mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda'r bobl i weithredu unrhyw ganllawiau neu driniaeth a roddir gan y tîm amlddisgyblaethol sy'n ymwneud â'u gofal. Gwelsom dystiolaeth o atgyfeiriad therapi galwedigaethol a wnaed gan reolwr Beacons Park ar ôl problem a gododd yn ystod arhosiad rhywun. Caiff y bobl gymorth i fynd i apwyntiadau meddygol wedi'u trefnu. Mae'r bobl fel arfer yn dod â digon o feddyginiaeth ar gyfer eu harhosiad; fodd bynnag, bydd y gweithwyr cymorth hefyd yn helpu'r bobl â phresgripsiynau os bydd angen. Caiff meddyginiaeth ei storio'n briodol, ac mae'r gweithwyr cymorth yn rhoi meddyginiaeth fel y'i rhagnodir. Rhoddir hyfforddiant arbenigol ar ymyriadau megis dull bwydo gastroberfeddol (dull bwydo PEG) ac mae polisi meddyginiaeth ar waith y gall y gweithwyr cymorth gyfeirio ato i gael arweiniad os bydd angen.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion rheoli heintiau. Mae'r staff gofal yn cwblhau tasgau domestig, ac mae'r bobl yn helpu gymaint â phosibl yn ystod eu harhosiad. Roedd amgylchedd y cartref yn lân ac yn daclus pan wnaethom ymweld â'r lleoliad.

## Yr Amgylchedd

Darperir gofal a chymorth i'r bobl mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo eu llesiant a'u canlyniadau personol. Mae'r gwasanaeth wedi ei leoli mewn cartref domestig, sy'n galluogi'r bobl i ymarfer eu sgiliau byw bob dydd yn realistig. Mae ystafell wely i lawr y grisiau gydag ensuite ar gyfer pobl â phroblemau symudedd, ac mae digon o le ar gyfer cyfarpar codi os bydd angen. Mae dwy ystafell wely arall i fyny'r grisiau, gydag ystafell ymolchi i'w rhannu ac ystafell ar wahân ar gyfer staff sy'n cysgu ar y safle. Mae cegin/ardal fwyta gymunedol, a lolfa, lle gall y bobl dreulio amser gyda'i gilydd. Defnyddir cyfleusterau'r gegin a chyfleusterau golchi dillad i wella sgiliau byw'n annibynnol y bobl. Mae'r bobl yn dod ag eitemau personol gyda nhw ar gyfer eu harhosiad ac mae'r gwasanaeth yn cadw cyflenwad o nwyddau ymolchi newydd i'w rhoi i'r bobl os byddant yn cyrraedd heb unrhyw nwyddau o'r fath. Mae ardal hygyrch awyr agored i'r bobl ei defnyddio mewn tywydd da.

Caiff cyfleusterau a chyfleustodau'r gwasanaeth eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw'n barhaus. Gwelsom dystiolaeth o brofion a gwiriadau diogelwch tân, yn ogystal ag ymarferion rheolaidd ar gyfer gwagio'r adeilad. Mae ymwelwyr yn nodi eu presenoldeb wrth gyrraedd. Caiff meddyginiaeth a gwybodaeth gyfrinachol eu storio'n ddiogel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Dywedodd y gweithwyr cymorth wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn Beacons Park. Nododd un gweithiwr cymorth yn ei adborth: *“we have a good staff team who communicate with each other and a manager who is available if needed.”* Dywedodd gweithiwr cymorth arall wrthym: *“this is a nice place to work.”* Mae'r tîm o staff yn fach ac yn cynnwys gweithwyr cymorth sydd wedi gweithio yn y gwasanaeth ers llawer o flynyddoedd. Maent yn brofiadol iawn wrth weithio gyda lleoliadau arhosiad byr ac argyfwng. Mae'r rheolwr yn goruchwylio Beacons Park a chwaer wasanaeth, ac yn treulio llawer o amser gyda'r bobl sy'n aros a'r gweithwyr cymorth er mwyn cael mewnwelediad da i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg o ddydd i ddydd, gan edrych ar y pethau cadarnhaol a'r pethau negyddol.

Caiff y bobl eu cefnogi gan aelodau o staff sydd wedi cael eu recriwtio a'u fetio'n ddiogel. Mae gan ddarparwr y gwasanaeth yr holl wybodaeth recriwtio ofynnol a gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff yn Beacons Park yn gweithio gyda gwiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r gweithwyr cymorth wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf a hyfforddiant sy'n benodol i anghenion y bobl sy'n aros yn y gwasanaeth. Darparwr y gwasanaeth sy'n cyflenwi'r hyfforddiant ac mae cyfathrebu da rhwng y rheolwr a'r darparwr hyfforddiant am yr hyn sydd ei angen. Cynhelir sesiynau goruchwylio ac arfarniadau yn rheolaidd, ac mae'r rheolwr yn cynnal sgyrsiau â'r tîm bach am unrhyw fater a all fod wedi codi.

Mae prosesau sicrhau ansawdd ar waith, ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Mae'r rheolwr yn cwblhau archwiliadau drwy'r system electronig newydd a gellir eu trosglwyddo'n uniongyrchol wedyn i'r Unigolyn Cyfrifol er mwyn llywio'r ymweliadau monitro a'r adroddiadau ar ansawdd y gofal y mae'r Unigolyn Cyfrifol yn eu cwblhau drwy'r flwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn yn nodi cryfderau'r gwasanaeth a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 16 | Rhaid adolygu gwybodaeth am anghenion y bobl er mwyn sicrhau bod y cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn gywir. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/10/2023